
# Datganiad o Angen

## Yr hyn mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am anghenion cyn-filwyr benywaidd

Female Veterans
TRANSFORMATION PROGRAMME

## HUNANIAETH

Yn aml nid yw menywod yn uniaethu â'r term 'cyn-filwr' ac maent yn wynebu materion **penodol, cymhleth ac amlhaenog o ganlyniad i'w gwasanaeth.**




### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

- Cydnabyddiaeth o anghenion penodol cyn-filwyr benywaidd
- Grymuso menywod i ddiffinio'u gwasanaeth milwrol yn eu geiriau eu hunain
- Dylai gwasanaethau holi am wasanaeth milwrol yn gynhwysol, yn hytrach na defnyddio termau unigol fel "cyn-filwr"
- Talu sylw arbennig i effaith Gwaharddiadau'r Gwasanaethau (gwaharddiadau o ran priodi, beichiogrwydd, a bod yn hoyw)
- Darparu cymorth i'r rhai yr effeithir arnynt yn negyddol, yn enwedig unigolion LHDTC+

## DRWGDYBIAETH AC ANAF MOESOL

**Yn aml mae menywod yn teimlo'u bod wedi cael eu bradychu ac wedi cael cam** gan y Lluoedd Arfog gan na wnaethant ymateb i'w hanghenion, cwynion a'u ceisiadau am gymorth a chefnogaeth.


### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

Cydnabyddiaeth y gallai hyn effeithio ar ryngweithio neu ddiffyg rhyngweithio gyda gwasanaethau.

## MYNEDIAD AT WASANAETHAU

**Yn aml, nid yw menywod yn cyrchu gwasanaethau a ddarperir i gyn-filwyr gan mai eu canfyddiad yw bod**

**dynion yn tra-arglwyddiaethu arnynt ac yn methu â diwallu eu hanghenion nhw.**




### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

- Mae menywod eisiau teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn gyfartal ac yn gallu cyrchu gwasanaethau cymorth i gyn-filwyr
- Dylai gwasanaethau gael eu personoli ar sail anghenion yr unigolyn a beth sydd o'r pwys mwyaf i'r person hwnnw
- Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn fwy ymwybodol a deall yn well anghenion penodol menywod ac ymateb mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth iddyn nhw

## BWLIO, GWAHANIAETHU, AFLONYDDU AC YMDDYGIADAU RHYWIOL AMHRIODOL YN CYNNWYS YMOSOD A THREISIO

Mae canran sylweddol o fenywod wedi wynebu neu wedi bod yn dyst i un neu fwy o'r materion hyn pan oeddent yn gwasanaethu.

**85%** wedi teimlo'u bod yn cael eu **trin yn wahanol** i'w gweithwyr cyfatebol gwrywaidd




O fenywod wedi adrodd eu bod wedi gweld **neu brofi gwahaniaethu rhywiol**[2]

### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

- Mae angen cydnabod a derbyn effaith eang a llechwraidd y mater hwn ar draws y sector fel bod menywod yn teimlo'u bod yn cael eu gweld a'u clywed ac felly eu cefnogi mewn ffordd sy'n lleihau cywilydd a stigma
- Lle bo'n briodol a lle y bo angen, dylai gwasanaethau fod i fenywod yn unig, a dylent gael eu darparu gan fenywod

## GADAEL Y LLUOEDD ARFOG, CYFLOGAETH A CHYLLID




o fenywod yn teimlo nad oeddent wedi derbyn **llawer o gefnogaeth neuheb gael eu paratoi'n ddigonol** ar gyfer bywyd fel dinasyddion[4]

**44%** o fenywod wedi/yn nodi y buont yn ddi-waith am gyfnodau hir[5]

### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

Mae angen cymorth gwell ac wedi'i dargedu'n well ar fenywod wrth iddynt adael y lluoedd arfog fel y gallant ddod o hyd i waith priodol a chynaliadwy sy'n rhoi ystyriaeth i'w cyfrifoldebau gofalu.

Gan arwain at:

- Lai o anawsterau ariannol
- Llai o effaith ar iechyd meddwlyn sgilcolli eu hunaniaeth
- Yn llai tebygol o droi at weithgareddau troseddol

## IECHYD CORFFOROL AC IECHYD MEDDWL

**'Cafwyd bod menywod ym Myddin Prydain saith gwaith yn fwy tebygol na dynion o ddioddef o anafiadau cyhyresgyrbydol......maen nhw ddeng gwaith yn fwy tebygol na dynion o ddioddef o doriadau'r glun ac ysgigiadau pelfig[3]**

**Yn aml mae menywod yn wynebu effaith tymor hir ar eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl o ganlyniad i wasanaethu.**

### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

- Mae angen cydnabod anghenion iechyd penodol menywod fel cyn-filwyr, ac i weithwyr proffesiynol ddeall yr achosion posibl yn well
- Mae angen i fenywod deimlo'n ddigon hyderus i ddatgan eu gwasanaeth milwrol a chael eu cefnogi i ddilyn llwybrau penodol o fewn y Lluoedd Arfog lle bo'n briodol ac yn ddymunol

## MEYSYDD LLE NAD OES LLAWER O DYSTIOLAETH

Nid oes gwaith ymchwil digonol wedi'i gynnal ynghylch nifer o feysydd ac felly nid oes gweithredu ymarferol yn digwydd i wella'r sefyllfa.

**Dim ond 2%** o ymchwil ar gyn-filwyr sy'n canolbwyntio ar fenywod[6]

### BETH SYDD EI ANGEN AR GYN-FILWYR BENYWAIDD?

Mae angen mwy o ymchwil a chipio data er mwyn deall yn well y materion sy'n benodol i gyn-filwyr benywaidd, fel y system cyfiawnder troseddol, hil a ffydd, gwasanaethau gofal, unigrwydd, hygyrchedd a thlodi digidol a Milwyr wrth gefn.

[1] Lauren Godier-McBard, Nicola Gillin a Matt Fossey, We Also Served: The Health and Wellbeing of Female Veterans in the UK (Chelmsford: Prifysgol Anglia Ruskin, 2021), 104.
[2] Godier-McBard, Gillin a Fossey, *We Also Served*, 30
[3] Paula Edwards a Tony Wright, No Man's Land, (Dudley: Salute Her UK, 2019), 5.
[4] Edwards a Wright, *No Man's Land*, 16
[5] Edwards a Wright, *No Man's Land*, 18
[6] Christina Dodds a Matthew Kiernan, "Hidden Veterans: A Review of the Literature on Women Veterans in Contemporary Society," *Illness Crisis a Loss* 27, rhif 4 (2019): 2.

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.fvtp.org.uk**